YSGOL BRYNREFAIL

PÊL DROED – CWPAN CYMRU merched dan 13

Sul 9fed Mai 2010

Park Hall, Croesoswallt

Ysgol Brynrefail 11 Ysgol Cwmtawe 1

O'r diwedd, ac wedi hir ymaros, fe gamodd tîm merched dan 13 Ysgol Brynrefail i'r cae ar gyfer eu gêm gwpan derfynol yn erbyn genod Cwmtawe. Gyda'r haul yn tywynnu uwchben a thorf fawr o gefnogwyr wedi teithio i'w cefnogi yr oedd gobeithion pawb yn uchel.

O'r chwib gyntaf fe ddechreuodd Brynrefail chwarae pêl droed gwych gyda'r capten Mari Gibbard ac Alaw Hughes yn feistri ar ganol y cae ac yn llywio'r chwarae gyda'u sgiliau destlus. Disgleirio hefyd oedd doniau Lois Regan yn arwain y blaenwyr ac nid oedd yn sioc i neb pan sgoriodd Brynrefail trwy waith gwych Lois Regan.O hynny ymlaen fe ddaeth goliau yn gyson ac erbyn hanner amser yr oedd yr ornest eisoes ar ben i genod Cwmtawe.

Dechreuodd yr ail hanner fel diweddwyd yr hanner gyntaf gydag Ysgol Brynrefail yn pwyso ac yn sgorio'n gyson. Yn ystod yr ail hanner fe ddaeth tri eilydd i'r cae ond ni wnaeth wahaniaeth i batrwm y chwarae a Brynrefail yn parhau i bwyso a chwarae pêl droed gwych.

Yn agos at ddiwedd y gêm fe sgoriodd Cwmtawe gôl gysur ond pan ddaeth y chwib olau dim ond un tîm oedd ar y brig.

Y sgorwyr oedd : Lois Regan (3), Mari Gibbard (3), Alaw Hughes(3), Ela Owen (1), Catrin Gruffudd (1).Seren y gêm ? Wel a bod yn hollol onest yr oedd pedwar ar ddeg yn serennu a phawb yn chwarae eu rhan tuag at fuddugoliaeth swmpus.

Genod ni –da'de